YN RHAD AC AM DDIM I YSGOLION GWLADOL

HAY FESTIVAL

*dychmygu'r byd*

# RHAGLEN I YSGOLION

CYFNOD ALLWEDDOL 2 — Dydd Iau, 23 Mai 2019

CYFNODAU ALLWEDDOL 3 a 4 — Dydd Gwener, 24 Mai 2019

Noddir gan Llywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government






















## CYNNWYS


Croeso 3

Y rhaglen yn fras 4

Atebion i'ch cwestiynau 6

DYDD IAU, 23 MAI – Cyfnod Allweddol 2

Digwyddiadau: 10am a 2.15pm 8

Digwyddiadau: 11.15am 9

Digwyddiadau: 1pm 10

DYDD GWENER, 24 MAI – Cyfnodau Allweddol 3 a 4

Digwyddiadau: 10am a 2.15pm 11

Digwyddiadau: 11.15am 12

Digwyddiadau: 1pm 13




## CROESO

Mae'n bleser gennym gyhoeddi Rhaglen i Ysgolion Gŵyl Y Gelli 2019, gyda rhestr wych o siaradwyr amrywiol yn cynnig amrywiaeth ysbrydoledig o ddigwyddiadau. Mae'r prif siaradwyr ar y diwrnod cyntaf yn cynnwys Ade Adepitan gyda'i anturiaethau anhygoel, adrodd storïau gyda Cressida Cowell, sut i ddarganfod newyddion ffug gyda NewsWise, a hud gwyddoniaeth gyda Steve Mould. Ar gyfer y diwrnod i ysgolion uwchradd, bydd Sarah Crossan yn trafod ei llyfr newydd, *Toffee*, hanes LGBTQ+ gan Amy Lamé, barddoniaeth Michael Rosen ac ysgrifennu am fywyd gydag Alex Wheatle.

Bydd y rhaglen, sy'n cynnig 12 o ddigwyddiadau gwych i ddewis o'u plith bob dydd, yn ysbrydoli a difyrru disgyblion yng Nghyfnodau Allweddol 2, 3 a 4. Mae'r digwyddiadau, a ariennir yn hael gan Lywodraeth Cymru a Sefydliad Gŵyl Y Gelli, yn rhad ac am ddim i bob ysgol wladol.

Gall ysgolion gyrraedd erbyn 10am neu 11.15am. Mae'r ddau amser dechrau yn cynnig yr un cyfleoedd i ddisgyblion weld yr awduron, pori trwy lyfrau a phrynu llyfrau i'w llofnodi yn Siop Lyfrau enfawr Gŵyl Y Gelli.

Edrychwn ymlaen at groesawu eich ysgol i Ŵyl Y Gelli am ddiwrnod gwych o adrodd storïau ac adloniant ysbrydoledig.

**Y Cyfarwyddwr Plant, Julia Eccleshare a'r Rheolwr Addysg, Aine Venables, sy'n gyfrifol am greu Rhaglen i Ysgolion Gwyl Y Gelli.**

*Cyfarwyddwr Plant yng Ngwyl Y Gelli, Cymru*

*Rheolwr Addysg yng Ngwyl Y Gelli, Cymru*

### SUT I ARCHEBU LLE AR GYFER Y RHAGLEN I YSGOLION

1. Dewiswch 10am neu 11.15am fel eich amser cyrraedd. Mae cyrraedd yn hwyrach yn rhoi digonedd o amser ar gyfer teithio i'r Gelli. Mae'r ddau amser dechrau yn cynnig yr un cyfleoedd i weld yr awduron, chwilota trwy'r siop lyfrau, ac ati.
2. Porwch drwy'r rhaglen hon a dewis eich digwyddiadau. Gallwch rannu'ch grŵp yn ôl gwahanol ddigwyddiadau ar gyfer y naill amser a'r llall, ar yr amod eu bod yn cael eu goruchwylio, a gallwch ddod â chynifer o ddisgyblion ag yr hoffech. Yr amseroedd yw 10am, 11.15am ac 1pm **NEU** 11.15am, 1pm a 2.15pm.
3. Archebwch le trwy ddefnyddio'r ffurflen archebu ar-lein yn: **hayfestival.org/wales/rhaglen-ysgolion**.
4. Ewch i **hayfestival.org/wales/hygyrchedd** i weld sut gallwn ni helpu â hygyrchedd, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anawsterau niwrolegol.
5. Byddwn yn cysylltu â chi i gadarnhau eich lle cyn gynted ag y bo modd. Ar gyfer ysgolion yng Nghymru, rydym yn argymell y dylech wneud cais am fwrsari teithio Ewch i Weld Cyngor Celfyddydau Cymru cyn gynted ag y cadarnheir eich lle, ac o leiaf bedair wythnos cyn eich taith.
6. Byddwn yn cysylltu yn agosach at yr amser i gadarnhau trefniadau parcio.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â: **schools@hayfestival.com**.

## Y RHAGLEN YN FRAS

# CYFNOD ALLWEDDOL 2

**DYDD IAU, 23 MAI 2019**

### Yn dechrau am 10am...

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 10am | FAKE NEWS DETECTIVES | CRESSIDA COWELL | STEVE MOULD | HARRY HILL |

10.45am Egwyl

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 11.15am | CHRIS BRADFORD | CAROLINE LAWRENCE | ABI ELPHINSTONE | KIRAN MILLWOOD HARGRAVE |

12pm Cinio

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1pm | ADE ADEPITAN | GARY NORTHFIELD | CHITRA SOUNDAR | KATE DICAMILLO |

1.45pm Gorffen

### Yn dechrau am 11.15am...

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 11.15am | CHRIS BRADFORD | CAROLINE LAWRENCE | ABI ELPHINSTONE | KIRAN MILLWOOD HARGRAVE |

12pm Cinio

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1pm | ADE ADEPITAN | GARY NORTHFIELD | CHITRA SOUNDAR | KATE DICAMILLO |

1.45pm Egwyl

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2.15pm | FAKE NEWS DETECTIVES | CRESSIDA COWELL | STEVE MOULD | HARRY HILL |

2.30pm Gorffen

## Y RHAGLEN YN FRAS

# CYFNODAU ALLWEDDOL 3 a 4

**DYDD GWENER, 24 MAI 2019**

### Yn dechrau am 10am...

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 10am | I'M A JOURNALIST... | CANDY GOURLAY | MARCUS SEDGWICK | HOLLY BOURNE |

10.45am Egwyl

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 11.15am | ADE ADEPITAN | MAE MARTIN (13+) | YABA BADOE | DAVID BADDIEL |

12pm Cinio

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1pm | MICHAEL ROSEN | AMY LAMÉ | ALEX WHEATLE | SARAH CROSSAN |

1.45pm Gorffen

### Yn dechrau am 11.15am...

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 11.15am | ADE ADEPITAN | MAE MARTIN (13+) | YABA BADOE | DAVID BADDIEL |

12pm Cinio

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1pm | MICHAEL ROSEN | AMY LAMÉ | ALEX WHEATLE | SARAH CROSSAN |

1.45pm Egwyl

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2.15pm | I'M A JOURNALIST... | CANDY GOURLAY | MARCUS SEDGWICK | HOLLY BOURNE |

2.30pm Gorffen

## ATEBION I'CH CWESTIYNAU

"Cafodd ein disgyblion brofiad anhygoel yn Y Gelli. Roedd y rhan fwyaf ohonyn nhw'n ddarllenwyr anfoddog, ac roedd mor gyffrous gweld eu diddordeb wrth iddyn nhw wrando ar awduron, gofyn cwestiynau a chyfarfod â nhw yn y siop lyfrau. Rydym ni mor ddiolchgar am y cyfle i fynd â nhw i ddigwyddiad o'r fath yn rhad ac am ddim. Bydd ein disgyblion yn cofio'r ymweliad am byth."

*Sylw gan athro, Gwyl Y Gelli 2018*

### A oes bwrsari teithio ar gael?

Gallwch wneud cais am nawdd i dalu costau teithio gan gronfa Ewch i Weld Cyngor Gall ysgolion yng Nghymru wneud cais am fwrsari teithio o gronfa 'Ewch i Weld' Cyngor Celfyddydau Cymru i dalu costau teithio – rhaid i chi wneud cais bedair wythnos cyn eich ymweliad. Mae'n syniad da gwneud cais cyn gynted ag y byddwch yn anfon eich ffurflen archebu atom. Gallwch ddefnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i dalu costau teithio hefyd.

### Sut mae archebu tocynnau?

Caiff pob tocyn ei archebu'n ddigidol. Gallwch ofyn am docynnau trwy gyflwyno'r ffurflen archebu ar-lein. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 30 Ebrill 2019. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, anfonwch neges e-bost i: **schools@hayfestival.com**.

### A fydd disgyblion yn gallu prynu llyfrau yn yr Wyl?

Byddan. Bydd llyfrau gan yr holl awduron ar werth am bris gostyngol yn siop lyfrau'r Ŵyl. Gall disgyblion gael eu llyfrau wedi eu llofnodi ar y diwrnod, ac mae croeso iddyn nhw ddod â'u llyfrau eu hunain i'w llofnodi hefyd.

### Allwn ni fynd i fwy nag un digwyddiad?

Gallwch fynychu cynifer o ddigwyddiadau ag y dymunwch, cyn belled â bod lle ar gael, ond dim ond digwyddiadau sy'n cyfateb i'ch amser cyrraedd a ddewiswyd gennych y gallwch chi eu dewis: gallwch naill ai ddechrau am 10am (ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau am 10am, 11.15am ac 1pm – amser gorffen 1.45pm) neu gallwch ddechrau am 11.15am (ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau am 11.15am, 1pm a 2.15pm – amser gorffen 3pm).













### Allwn ni ddod â grwp mawr o blant i safle'r Wyl?

Gallwch, mae'r safle wedi ei gynllunio i fod yn ddiogel a chyfforddus. Bydd pob ysgol yn cael ei chyfarch wrth gyrraedd, ac yn cael ei thywys i'w lleoliad cyntaf. Bydd staff yr Ŵyl wrth law trwy gydol y dydd i ateb ymholiadau. Mae darpariaeth lawn o ran diogelwch ar y safle, gyda gweithdrefn gynhwysfawr ar gyfer plant coll.

### A yw'r digwyddiadau yn hygyrch?

Ydyn, mae ein lleoliadau yn hygyrch i gadeiriau olwyn ac mae ganddynt ddolenni sain is-goch ar gyfer myfyrwyr ag anawsterau clywed. Gallwn ni wneud trefniadau ar gyfer ymwelwyr ag anawsterau niwrolegol hefyd; i gael mwy o wybodaeth, ewch i **hayfestival.com/wales/hygyrchedd**.

### Allwn ni ddod â phecynnau cinio gyda ni?

Cewch. Mae digon o le ar y safle i ddisgyblion ymlacio a mwynhau yn ystod yr awr ginio. Os bydd hi'n bwrw glaw, gall pawb aros yn sych yn y pebyll.

### Oes yna le i brynu te a choffi ar y safle?

Bydd Caffi'r Cyfeillion ar agor trwy gydol dau ddiwrnod y Rhaglen i Ysgolion a bydd yn cynnig te, coffi, diodydd a byrbrydau.

### Ble ddylem ni barcio?

Mae gan yr Ŵyl faes parcio penodol i fysiau mini. Gall bysiau dynnu i mewn i'r gilfan y tu allan i'r safle ar Heol Aberhonddu er mwyn gadael plant oddi ar y bws ond rhaid iddynt adael y safle drwy'r Clas-ar-Wy/Glasbury. Gall gyrwyr bysiau barcio am ddim yn y maes parcio penodedig i fysiau yng Ngwesty Baskerville Hall. Byddwch yn cael slot amser i adael y safle ar ddiwedd y dydd. Mae system unffordd orfodol yn weithredol o faes parcio Gwesty Baskerville Hall, trwy dref Y Gelli ac ymlaen i safle'r Ŵyl. Rhaid i fysiau adael drwy'r Clas-ar-Wy/Glasbury. Byddwn yn anfon llythyr â gwybodaeth bellach pan fyddwch yn archebu lle.


### Pwy sy'n ariannu'r digwyddiadau?

Caiff ein Rhaglen i Ysgolion ei hariannu gan Lywodraeth Cymru a Sefydliad Gŵyl Y Gelli, fel rhan o'n hymrwymiad i addysg a'r gymuned.

## DYDD IAU, 23 MAI 2019 Amser: 10am a 2.15pm
Cyfnod Allweddol 2

Mae deunyddiau addysgu ar gyfer y digwyddiadau hyn ar gael ar-lein ▶ hayfestival.org/deunyddiau-addysgol

### BECOME A FAKE NEWS DETECTIVE!
*The Guardian Foundation a NewsWise*




Beth yw newyddion? A yw pob darn o newyddion yn ffug? Ym mhwy allwch chi ymddiried? Ymunwch â thîm NewsWise ar gyfer ymchwiliad hwyliog a rhyngweithiol i'r new-yddion… chwiliwch am y cliwiau i'ch helpu i adnabod newyddion ffug, a deall pam mae hyn yn bwysig!

Prosiect am ddim gan y Guardian Foundation, yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol a'r PSHE Association yw NewsWise.




### CRESSIDA COWELL
*Dragons and Wizards*




Cewch gwrdd â'r awdures Cressida Cowell, sydd wedi gwerthu miliynau o lyfrau, ac a greodd *How to Train Your Dragon* (sydd hefyd yn ffilm DreamWorks a rhyddfraint teledu) a chyfres The Wizards of Once. Bydd Cressida yn siarad am ei llyfr diweddaraf, *The Wizards of Once: Twice Magic*, yn ogystal â *How to Train Your Dragon*, ei hysbrydoliaeth, ac yn rhoi cynghorion ar ddod yn awdur neu'n ddarlunydd.




### STEVE MOULD
*Science is Magic*




Mae Steve Mould yn gyflwynydd gwyddonol sy'n annog plant, gyda'i ymagwedd feiddgar a chwareus, i ddarganfod y wyddoniaeth anhygoel o'u cwmpas. Gall llawer o wyddoniaeth ymddangos yn gwbl hudolus, a gellir esbonio llawer o driciau hud â gwyddoniaeth. Gallwch ryfeddu at ddirgelion Steve yn y sioe ryngweithiol hon sy'n llawn arddangosiadau neilltuol a darganfod sut maen nhw'n gweithio!




### HARRY HILL
*Matt Millz*



Ymunwch â Harry Hill wrth iddo eich cyflwyno i'w gymeriad, Matt Millz, sef bachgen ifanc sy'n benderfynol o fod yn ddigrifwr stand-yp. Bydd y sioe yn cynnig cyflwyniad doniol iawn i gomedi, gyda Harry yn esbonio pethau i'w gwneud ac i beidio â'u gwneud, gan ddangos rhai technegau, yn ogystal â chynnig cyfle i blant arbrofi â'u sgiliau comedi. Felly, blant – dewch â'ch jôcs gorau gyda chi!







## DYDD IAU, 23 MAI 2019 Amser: 11.15am
Cyfnod Allweddol 2

Mae deunyddiau addysgu ar gyfer y digwyddiadau hyn ar gael ar-lein ▶ hayfestival.org/deunyddiau-addysgol

### CHRIS BRADFORD
*Young Samurai: The Return of the Warrior*




Bydd yr awdur llwyddiannus, Chris Bradford, y mae ei waith wedi cyrraedd rhestr y deg uchaf, yn lansio ei lyfr newydd o'r gyfres Young Samurai, *The Return of the Warrior.* Cewch ymuno â'n harwr, Jack, wrth iddo chwilio am ei chwaer, wedi iddi fod mewn llongddrylliad oddi ar arfordir Siapan. Gallwch ddisgwyl profiad digwyddiad byw heb ei debyg o'r blaen gan Chris, sydd wedi'i hyfforddi mewn carate, cic-focsio a chleddyfyddiaeth Samwrai – cewch ddarganfod a oes gennych chi'r hyn sydd ei angen i fod yn Samwrai…




### CAROLINE LAWRENCE
*The Time Travel Diaries*




Mae'r awdures Caroline Lawrence, sydd wedi gwerthu dros filiwn o lyfrau, yn ysgrifennu storïau hanes dirgel. Dywed Caroline, "Mae arna' i eisiau gwybod popeth am y gorffennol; rwy'n ysgrifennu nofelau hanesyddol yn y bôn am fod neb wedi dyfeisio Peiriant Amser." Mae'n briodol fod ei phrosiect diweddaraf am fachgen ysgol o Lundain sy'n teithio'n ôl mewn amser i Lundain yn Oes y Rhufeiniaid. Gallwch ddisgwyl propiau, ffeithiau a llawer o chwerthin yn y digwyddiad newydd cyffrous hwn.




### ABI ELPHINSTONE
*The Unmapped Chronicles*



O chwilio am oleuadau'r gogledd ar draws yr Arctig i fyw gyda Helwyr Eryrod Kazakh ym Mongolia, bydd yr awdures Ani Elphinstone yn siarad am yr anturiaethau bywyd go iawn sy'n gefndir i'w llyfrau, yn ogystal â'r synfyfyrdodau damweiniol a sbardunodd ei chyfres newydd, sef *The Unmapped Chronicles*. Bydd hi'n datgelu amrywiaeth o wrthrychau cyffrous ac anarferol ac yn dangos i blant pa mor hawdd yw hi iddyn nhw ddarganfod hud yn eu bywydau bob dydd.




### KIRAN MILLWOOD HARGRAVE
*The Way Past Winter*



Ymunwch â Kiran Millwood Hargrave, bardd a dramodydd arobryn ac awdur *The Girl of Ink & Stars* a *The Island at the End of Everything*, sy'n llyfrau hynod boblogaidd. Bydd Kiran yn cyflwyno ei llyfr diweddaraf, sef *The Way Past Winter*. Cewch ddysgu am yr hyn a fu'n ysbrydoliaeth i'r llyfr, taith anhygoel Kiran i ddod yn awdures arobryn, a chlywed Kiran yn darllen pytiau o'i stori.




## DYDD IAU, 23 MAI 2019 Amser: 1pm
Cyfnod Allweddol 2

Mae deunyddiau addysgu ar gyfer y digwyddiadau hyn ar gael ar-lein ▶ hayfestival.org/deunyddiau-addysgol

### ADE ADEPITAN
*Ade's Amazing Ade-ventures: Battle of the Cyborg Cat*




Cewch gyfarfod y Paralympian a'r cyflwynydd teledu, Ade Adepitan, a chlywed am ei lyfr newydd cyffrous, sef *Battle of the Cyborg Cat,* sydd wedi'i ysbrydoli gan ei brofiad ef ei hun o symud i Lundain o Nigeria. Cewch ddarganfod sut aeth ati i addasu i fywyd mewn gwlad newydd ac archwilio'r holl bethau anhygoel y mae wedi eu gwneud ers hynny, o'r Gemau Paralympaidd i deithio o gwmpas y byd.




### GARY NORTHFIELD
*Julius Zebra*




Bydd y digwyddiad hwn, sy'n llawn ffeithiau Rhufeinig, Eifftaidd a Groegaidd a chynghorion darlunio ar gyfer darpar gartwnwyr ifanc, yn gwneud i chi chwerthin wrth i'r meistr-gartwnydd, Gary Northfield (*The Beano, The Dandy*), gyflwyno byd doniol iawn Julius Zebra. Nid sebra cyffredin yw Julius – mae'n Ymladdwr Rhufeinig, yn Dduw Ceffyl Eifftaidd, a'r tro hwn, mae hyd yn oed yn helpu ei gyfaill, Heracles, gydag ychydig o'i orchwylion, yn yr antur wirion newydd hon…




### CHITRA SOUNDAR
*Indian Storytelling*



Yn aml, caiff chwedlau gwerin eu trosglwyddo o un genhedlaeth i'r llall. Fe wnaeth yr awdures Chitra Soundar dyfu i fyny hefyd yn gwrando ar storïau am hud, doethineb a ffraethineb. Yn ei digwyddiad, cewch ddarganfod beth a'i hysgogodd i ysgrifennu llyfrau, a gwrando ar ychydig o storïau hefyd. Mae Chitra Soundar yn awdures ac adroddwr storïau Prydeinig a anwyd yn India. Mae hi wedi cyhoeddi dros 30 o lyfrau ac wedi cael ei hysbrydoli gan dreftadaeth gyfoethog epigau a chwedlau gwerin o India.




### KATE DiCAMILLO
*Louisiana's Way Home*



Mae Kate DiCamillo yn un o'r awduron llenyddiaeth plant enwocaf heddiw. Mae hi wedi ennill llu o wobrau, bu'n Llysgennad Cenedlaethol ar gyfer Llenyddiaeth Pobl Ifanc, ac mae ganddi ddawn wych am gyflwyno rhai o gwestiynau mwyaf sensitif bywyd i ddarllenwyr ifanc. Bydd DiCamillo, sydd yma ar daith o America, yn trafod ei nofelau niferus ar gyfer pobl ifanc, gan gynnwys ei nofel ddiweddaraf, sef *Louisiana's Way Home*.






## DYDD GWENER, 24 MAI 2019 Amser: 10am a 2.15pm
Cyfnodau Allweddol 3 a 4

Mae deunyddiau addysgu ar gyfer y digwyddiadau hyn ar gael ar-lein ▶ hayfestival.org/deunyddiau-addysgol

### I'M A JOURNALIST...GET ME OUT OF HERE!
*The Guardian Foundation Education Centre*



Yn y sesiwn hwyliog hon, byddwch yn llywio'ch ffordd trwy'r jyngl newyddion ac yn osgoi cael eich brathu gan storïau ffug. Paratowch eich hun i ddarganfod peryglon cudd jôcs, castiau, sibrydion a thwyll i ddarganfod storïau newyddion cywir a dibynadwy.

Mae The Guardian Foundation Education Centre yn cynnal gweithdai am ddim i ysgolion yn swyddfeydd y Guardian yn Llundain.




The Guardian Foundation
Education Centre

### CANDY GOURLAY
*Bone Talk*



Mae Candy Gourlay o dreftadaeth Ffilipino, a bu'n newyddiadurwraig yn ystod Chwyldro Pŵer y Bobl cyn dod yn awdures. Mae ei nofel ddiweddaraf, *Bone Talk*, yn stori sy'n llawn ysbryd ac enaid a fydd yn mynd â chi i ganol llwyth Ffilipino pellennig. Mae gan Candy ddiddordeb mawr mewn gwladychiaeth, a theithiodd i fynydd pellennig ei llyfr tra oedd yn ei ysgrifennu. Mae hi'n rym cadarnhaol ym mudiad pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.





### MARCUS SEDGWICK
*The Monsters We Deserve*




Mae realiti a chanfyddiadau yn uno a barn yn newid yn nofel ddiweddaraf Marcus Sedgwik. Mae *The Monsters We Deserve* yn nofel arswydus a bygythiol am greadigrwydd a dychymyg, a natur angenfilod. Ymunwch â'r awdur, y cerddor a'r darlunydd sydd wedi ennill llu o wobrau wrth iddo archwilio'r ffaith mai rhai o'r angenfilod gwaethaf yw'r rhai rydym ni'n eu creu ein hunain.




### HOLLY BOURNE
*Are We All Lemmings & Snowflakes?*



Ymunwch â Holly Bourne, sef awdures arobryn *Am I Normal Yet?,* i ddathlu caredigrwydd a thosturi â'i nofel YA, *Are We All Lemmings & Snowflakes?* Bydd Holly yn siarad yn agored am faterion sy'n bwysig i bobl ifanc, gan gynnwys cynghorion ar sut i ddelio â straen a sut i ddechrau eich feirws caredigrwydd eich hun, oherwydd gall hyd yn oed y weithred leiaf o garedigrwydd newid byd rhywun.




## DYDD GWENER 24 MAI 2019 Amser: 11.15am
### Cyfnodau Allweddol 3 a 4

Mae deunyddiau addysgu ar gyfer y digwyddiadau hyn ar gael ar-lein ▶ hayfestival.org/deunyddiau-addysgol

### ADE ADEPITAN
*Ade's Amazing Ade-ventures: Battle of the Cyborg Cat*




Cewch gyfarfod y Paralympian a'r cyflwynydd teledu, Ade Adepitan, a chlywed am ei lyfr newydd cyffrous, sef *Battle of the Cyborg Cat*, sydd wedi'i ysbrydoli gan ei brofiad ef ei hun o symud i Lundain o Nigeria. Cewch ddarganfod sut aeth ati i addasu i fywyd mewn gwlad newydd ac archwilio'r holl bethau anhygoel y mae wedi eu gwneud ers hynny, o'r Gemau Paralympaidd i deithio o gwmpas y byd.




### MAE MARTIN
*Can Everyone Please Calm Down?*




Digrifwraig o Ganada yw Mae Martin sydd wedi ymddangos ar y BBC, ITV, Channel 4, Radio 1 a Radio 4. Hefyd, mae ganddi wybodaeth hollgynhwysfawr am fanion bethau yn ymwneud â Harry Potter. Mae Mae yn hollol gymwys i ymdrin â rhywioldeb hefyd. Yn nigwyddiad Mae, bydd hi'n siarad ag Amy Lamé am fanteision ac anfanteision labeli, amhendantrwydd rhywiol, genynnau hoyw, Lady Gaga a mwncïod deurywiol. Mae'r digwyddiad hwn yn addas ar gyfer disgyblion dros 13 oed.




### YABA BADOE
*Wolf-Light*




Mae Yaba Badoe, yr awdures a'r ffilmwraig, a gyrhaeddodd y rhestr fer am Wobr Branford Boase, yn cyfuno amgylcheddaeth, hud a ffeministiaeth yn *Wolf Light*. Wrth ddefnyddio ei threftadaeth Ghanaidd yn y nofel unigryw a hudol hon, mae Yaba yn archwilio themâu cadwraeth, amgylcheddaeth a gwarchod treftadaeth.




### DAVID BADDIEL
*Head Kid*



Bydd David yn Y Gelli i siarad am ei stori *Head Kid*, sy'n gwneud i chi chwerthin allan yn uchel, ac yn sôn am wireddu dymuniad. Mae'n gofyn y cwestiwn: beth fyddai'n digwydd pe bai'r athro mwyaf llym yn cyfnewid cyrff â'r plentyn mwyaf drwg yn yr ysgol? Ymunwch â David i glywed am yr anhrefn sy'n digwydd yn y stori hynod ddoniol hon am gyfnewid cyrff.







## DYDD GWENER 24 MAI 2019 Amser: 1pm
### Cyfnodau Allweddol 3 a 4

Mae deunyddiau addysgu ar gyfer y digwyddiadau hyn ar gael ar-lein ▶ hayfestival.org/deunyddiau-addysgol

### MICHAEL ROSEN
*Uncle Gobb and the Plot Plot*




Michael Rosen yw un o hoff awduron a beirdd perfformio Prydain ar gyfer plant ac oedolion. Mae wedi cyhoeddi tua 200 o lyfrau, ac mae ei sianel YouTube – "Kids' Poems and Stories with Michael Rosen" – wedi cael ei gwylio dros 45 miliwn o weithiau ledled y byd. Yn ogystal â'i waith ar gyfer plant, mae'n cyflwyno *Word of Mouth* ar BBC Radio 4 ac yn addysgu hanes, theori a chymhwyso llenyddiaeth plant yn Goldsmiths, Prifysgol Llundain, lle mae'n athro cadeiriol.





### AMY LAMÉ
*From Prejudice to Pride: A History of the LGBTQ+ Movement*




Ymunwch ag Amy Lamé ar daith trwy hanes LGBTQ+ yn ei llyfr, *From Prejudice to Pride*, o wareiddiadau hynafol hyd heddiw. Trwy ymdrin â digwyddiadau allweddol o achos llys Oscar Wilde i derfysgoedd Stonewall, argyfwng AIDS, priodas yr un rhyw a newid cyfreithiau sydd wedi effeithio ar fywyd pobl LGBTQ+, gan ateb cwestiynau ar gyfer pob darllenydd sy'n 11 oed ac yn hŷn sydd â diddordeb mewn rhywedd a hunaniaeth.




### ALEX WHEATLE
*Kerb Stain Boys and Home Girl*



Alex Wheatle yw awdur hynod lwyddiannus sawl llyfr, gan gynnwys y llyfr clasurol modern, *Brixton Rock*, a'r gyfres *Crongton*, sydd wedi ennill llu o wobrau. Dyfarnwyd MBE iddo am ei wasanaethau i lenyddiaeth yn 2008, mae wedi cael ei enwebu ddwywaith am Fedal Carnegie, ac mae wedi ennill nifer o wobrau, gan gynnwys Gwobr Ffuglen i Blant y Guardian. Ymunwch ag Alex wrth iddo ddisgrifio ei ysbrydoliaeth am naratif trwy hanes ei fywyd ei hun.




### SARAH CROSSAN
*Toffee*



Ymunwch â Sarah Crossan, sydd wedi ennill Medal Carnegie CILIP, ac yn Fardd Llawryfog na nOg, i gael y cipolwg cyntaf ar ei nofel YA newydd sbon. Mae *Toffee*, sy'n deimladwy, yn sbarduno'r meddwl ac yn hynod emosiynol, yn archwilio iechyd meddwl a chyfeillgarwch tra'n gofyn beth mae'n ei olygu i fod yn deulu. Nod ei phrosiect dwy flynedd Llawryfog #WeAreThePoets yw ysbrydoli pobl ifanc i fynegi eu hunain trwy farddoniaeth a phenillion. Bydd hi'n sgwrsio â Jenny Valentine.



## ▶ FFRWD FYW

Rydym yn ffrydio'r rhaglen i ysgolion yn fyw ddydd Iau, 23 Mai a dydd Gwener, 24 Mai. I gael mwy o wybodaeth a chofrestru, ewch i **hayfestival.org/livestream**

Ariennir y ffrydio gan Lywodraeth Cymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Partner y Cyfryngau

tes

## ▶ CHWARAEYDD Y GELLI

Gallwch fynd at archif sain a fideo ein Rhaglen i Ysgolion ar Chwaraeydd Y Gelli (sgroliwch i waelod y dudalen) yn **hayfestival.org/hayplayer**

## ▶ CYNLLUNIAU GWERSI

Gallwch fynd at adnoddau addysgu ar gyfer holl awduron ein Rhaglen i Ysgolion yn **hayfestival.org/teaching-materials**

## ▶ CYMERWCH RAN

Cewch ddarganfod am brosiectau ehangach Gwyl Y Gelli ar gyfer pobl ifanc, gan gynnwys Cwmpawd Gwyl Y Gelli a chwrs preswyl sy'n cynnig gweithdy am ddim Prosiect Bannau ar gyfer pobl ifanc 16–18 oed yn **hayfestival.org/education**

HAY FESTIVAL
*dychmygu'r byd*